

# Digimap for Schools

## Achub mewn Argyfwng

Paula Owens

### Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llw o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Achub Mynydd	Helm Crag, Lake District (Ardal y Llynnoedd)

Gwybodaeth	Defnyddio cyfeirnodau grid chwe ffigur. Ychwanegu labeli a marcwyr. Cynllunio llwybrau.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Disgrifio a deall agweddau allweddol o ddaeryddiaeth ffisegol, fel mynyddoedd. Defnyddio wyth pwynt cwmpawd, cyfeirnodau grid pedwar ffigur a chwe ffigur, symbolau ac allwedd (gan gynnwys defnyddio mapiau'r Arolwg Ordnans) i adeiladu gwybodaeth am y Deyrnas Unedig.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Amlygu a dod o hyd i leoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau a mapiau, er enghraifft, defnyddio cyfesurynnau a chyfeirnodau pedwar ffigur.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 2-12a, 2-13a, 2-14a

## Gweithgaredd

Cymryd rôl tîm achub mynydd i ddod o hyd i rywun sydd mewn trafferth, a'i gyrraedd, yn Ardal y Llynnoedd (Lake District), Cumbria. Dod o hyd i'w union lleoliad a dewis llwybr effeithiol i'w gyrraedd er mwyn dod ag ef oddi yno'n ddiogel. Gweler y PowerPoint sy'n cydfynd â hwn.

## Cyflwyniad

Mae Tîm Achub Mynydd Langdale/Ambleside (LAMRT) yn gweithredu mewn rhannau o ganolbarth Ardal y Llynnoedd, sef ardal fynyddig prysuraf Prydain. Maen nhw'n ymdrin â mwy na 100 o ddigwyddiadau'r flwyddyn ac yn dîm ymroddedig sy'n hunan-ariannu o 'wirfoddolwyr proffesiynol' o bob lliw a llun. Mae angen i dimau achub mynydd wybod sut i ddefnyddio mapiau'r Arolwg Ordnans yn fanwl, gan fod angen iddyn nhw, mewn argyfwng, allu dod o hyd i'r digwyddiad yn gyflym a chydlynu achubiaeth ddiogel yn y cyfnod byraf posibl. Mae *Digimap for Schools* yn galluogi disgyblion i ymarfer gan ddefnyddio'r math o fapiau a'r sgiliau cysylltiedig sy'n berthnasol i gyd-destunau bywyd go iawn.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Prif weithgaredd

Cyflwynwch waith tîm achub mynydd fel LAMRT a'r hyn y maen nhw'n ei wneud. Esboniwch fod y dosbarth yn mynd i ateb yr her o gydlynw gweithred achub fel LAMRT. Mae hyn yn cynnwys defnyddio sgiliau map i amlygu'n gyflym ble mae dringwr wedi'i anafu a sut i'w achub. Gellir cyflawni'r gweithgaredd mewn grwpiau bach neu barau.

## Mynd gam ymhellach

- Gweithio mewn grwpiau i chwarae rôl cyfweiliadau newyddion 'ar y teledu' am yr achub gydag un aelod o'r grŵp yn actio'r cyfwelydd, un yn ddiodefwr a'r gweddill yn aelodau o'r tîm achub mynydd. Esboniwch yr amodau tywydd ar y pryd, y dirwedd a'r peryglon cysylltiedig.
- Pa fath o unigolyn sy'n gwirfoddoli ar gyfer tîm achub mynydd? Archwiliwch wefan LAMRT a darganfyddwch fwy am y bobl sy'n rhoi o'u hamser i fod yn rhan o'r tîm, y cerbydau y maen nhw'n eu defnyddio a'r math o offer sydd eu hangen arnynt. Pa fathau o sgiliau sydd eu hangen ar bobl sy'n rhan o dîm achub mynydd? Ysgrifennwch hysbyseb ar gyfer mwy o aelodau.
- Esboniwch pam a sut dylai pobl fod yn barod ar gyfer heicio a dringo mewn rhanbarthau mynyddig ac, yn arbennig, pa mor bwysig yw hi i gario mapiau a chwmpawd. Pam mae adroddiadau tywydd mor bwysig? Ysgrifennwch rhai Prif Awgrymiadau ar gyfer bod yn ddiogel wrth heicio a dringo.
- Darganfyddwch a yw ffonau â system leoli fyd-eang yn ddibynnol bob amser.

## Dolenni ar y we

Rhowch gynnig ar eich sgiliau achub o wyneb craig yn y gêm ryngweithiol hon

<http://www.bbc.co.uk/drama/rockface/game/main.swf>

LAMRT <http://www.lamrt.org.uk>

Sefydliad Achub Mynydd <http://www.mountain.rescue.org.uk/mountain-advice>

Gwylwch ffilm fer o achubiad mynydd gan hofrennydd

<http://www.bbc.co.uk/britainfromabove/stories/roughcuts/mountainrescue.shtml>

<http://www.ordnancesurvey.co.uk/resources/maps-and-geographic-resources/the-national-grid.html>

Diolch i Nick Owen o LAMRT ar ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y gweithgaredd hwn.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



10877\_cynradd  
f1.0 Awst 2013

EDINA

# Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Y Digwyddiad – Gweithgaredd

Mae adroddiad wedi dod i mewn bod menyw wedi llithro ar dir gwlyb iawn a drwgdybir ei bod hi wedi torri ei choes isaf. Efallai y bydd angen ei thrin hi ar y safle ac efallai mynd â hi oddi yno mewn ambiwlans awyr. Cyfeirnod grid: NY328088. Cyfeiriad eich pencadlys yw Low Fold, 1 Old Lake Road, Ambleside, Cumbria LA22 0DN.


**Eich tasg:** dod o hyd i leoliad yr unigolyn sydd wedi'i anafu ar fap, cynllunio'r llwybr gorau i'w chyrraedd ar y ffordd ac ar droed a darparu cyfarwyddiadau. Mae angen creu map sy'n dangos eich pencadlys a lleoliad yr unigolyn sydd wedi'i anafu, ac un arall ar raddfa fwy sy'n dangos y dirwedd o'r ffordd agosaf at y dioddefwr.

## Tasgau

- 1 Agorwch *Digimap for Schools*. Defnyddiwch y blwch chwilio i ddod o hyd i'ch union leoliad trwy roi'r cod post LA22 0DN. Rhowch farciwr yma. Agorwch yr offer *Annotation* (anodi), cliciwch ar '*Place marker*' (gosod marciwr) a chliciwch ar y map. Mae'r cod post yn dangos yr ardal gyffredinol felly bydd rhaid i chi chwilio'r map ar gyfer '*Mountain Rescue Centre*' (Canolfan Achub Mynydd). Rhowch label nesaf ati, gan ddewis y testun maint lleiaf, sy'n dweud 'Canolfan Achub Mynydd'.
- 2 Rhowch y Cyfeirnod Grid: NY328088 yn y blwch chwilio. Bydd hwn yn mynd â chi at y llun map cywir sydd ei angen arnoch, ond bydd rhaid i chi ddod o hyd i'r union leoliad yn fwy gofalus gan ddefnyddio'r offeryn Cyfeirnod Grid . Llaciwch un clic ar y tro gan ddefnyddio'r offeryn *Scale* (graddfa) hyd nes i chi allu gweld yr '*eastings*' (dwyreiniadau) a'r '*northings*' (gogleddiadau) wedi'u marcio ar y map fel rhifau dau ddigid. Dylai llacio i lefel 8 ddangos y rhifau hyn yn glir.
- 3 Byddwch yn dod o hyd i'r '*eastings*' (dwyreiniadau) yn gyntaf gan mai'r rhain yw rhan gyntaf y Cyfeirnod Grid. Felly mae angen i chi ddod o hyd i 328. Dewch i hyd i'r dwyreiniad sy'n dweud 32 a'r un sy'n dweud 33. Y trydydd rhif, sef 8, yw lle'r ydych yn amcangyfrif sawl degfed o gilomedr y mae'r dwyreiniad rhwng y ddau bwynt hyn. Cofiwch weithio o'r chwith i'r dde, felly dechreuwch o'r dwyreiniad 32 a gweithiwch tua'r dwyrain tuag at ddwyreiniad 33 hyd nes i chi fynd 8/10 o'r ffordd. Mae'r llinell doredig yn dangos oddeutu ble y gallai hyn fod. Defnyddiwch yr offeryn *Grid Reference* (Cyfeirnod Grid) i glicio ar y map i wirio. Rhowch gynnig ar glicio rhwng 32 a 33 i weld sut mae'r set gyntaf o ffigurau yn y Cyfeirnod Grid yn newid hyd nes i chi gael darlenniad sy'n dechrau gyda NY328.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



- 4 Nawr mae angen i chi ddod o hyd i'r gogleddiad. Yr ail set o ffigurau yn y Cyfeirnod Grid yw 088. Felly mae angen i chi ddod o hyd i'r gogleddiad 08 ac yna dilyn yr un broses, ond yn lle gweithio o'r chwith i'r dde y tro hwn, mae angen gweithio o i lawr am i fyny mewn cyfeiriad gogleddol. Cofiwch y dywediad i'ch helpu chi i gofio pa un sy'n dod gyntaf mewn Cyfeirnod Grid – ar hyd y coridor (o'r chwith i'r dde neu i gyfeiriad dwyreiniol ar gyfer dwyreiniadau) ac i fyny'r grisiau (o'r gwaelod i fyny neu i gyfeiriad gogleddol ar gyfer gogleddiadau).

Nid yw pob gogleddiad wedi cael ei farcio, felly dewch o hyd i 08 trwy chwilio am y gogleddiad rhwng 07 a 09. Yna dechreuwch ar y llinell 08 a gweithiwch tua'r gogledd at 09 hyd nes i chi fynd tua 8/10 o'r pellter rhwng y ddau ogleddiad hyn. Mae'r llinell doredig yn dangos yn fras lle mae hwn. Nawr, gan ddefnyddio eich 'dwyreiniad' a'ch 'gogleddiad' dylech allu dod o hyd i'r union leoliad gan ddefnyddio'r offeryn Cyfeirnod Grid.

- 5 Ar ôl i chi ddod o hyd i'r union leoliad gan ddefnyddio'r offeryn Cyfeirnod Grid, gadewch hwn yn ei le a chlosiwch yn ofalus i weld ble mae hwn ar y map yn fwy manwl, a nodwch unrhyw nodweddion rydych yn eu gweld wedi'u marcio gerllaw. Byddwch yn ychwanegu marciwr, ond ar ôl i chi agor y bar offer anodi, bydd y marciwr cyfeirnod grid yn diflannu, felly mae angen i chi gofio oddeutu ble ar y map y mae ef. Os ydych chi eisiau gwirio eich marciwr, yna gallwch glicio arno ar ôl ei osod gan ddefnyddio offeryn cyfeirnod grid, ac yna ei symud os oes angen gan ddefnyddio'r offeryn 'Move' (symud).
- 6 Ychwanegwch farciwr a dewiswch 'Place label' (gosod label), yna dewiswch destun bach. Cliciwch nesaf at y marciwr ac ychwanegu testun i ddweud 'Rescue Point' (Man Achub).
- 7 Llaciwch y map hyd nes i chi allu ffitio'r ddau farciwr ar y map a pharatowch y map i'w argraffu. Yn gyntaf, gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi ticio'r blwch sy'n dweud 'Show Print Extent' (dangos faint fydd yn cael ei argraffu), gan y bydd hyn yn tywyllu'r rhan o'r map fydd yn cael ei argraffu. (I weld y maint llawn, llaciwch un lefel). Gallwch weld ai llun tirlun neu bortread sydd orau ar gyfer y map ac a fydd yn cynnwys y nodweddion rydych chi eisiau eu cynnwys. Efallai y byddwch eisiau cynnwys llinellau grid hefyd, er mwyn i chi allu siarad am y cyfeirnodau grid. Pan fyddwch yn hapus gyda'r gosodiadau, cliciwch 'Print' (argraffu).

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

- 8 Gan ddefnyddio'r un map, closiwch i'r ardal achub hyd nes i chi allu gweld ble mae'r ffordd agosaf yn dod i ben a'r llwybrau i fyny'r bryn yn dechrau. Mae angen i chi lunio map ar raddfa fwy er mwyn i chi allu gweld pa lwybrau sydd ar gael ar gyfer yr achub a sut beth yw'r dirwedd. Pan fyddwch yn hapus gyda'ch map, mae angen i chi ei argraffu a'i gadw.
- 9 Defnyddiwch y ddau fap i gynllunio llwybr o'r Ganolfan Achub Mynydd i'r dioddefwr. Lluniwch restr o gyfarwyddiadau cryno gan nodi a fyddwch yn teithio mewn Land Rover neu ar droed. Ble mae'r mynediad ffordd agosaf? Dyma ble dylai eich cerbyd anelu ato. Pa lwybrau sydd ar gael? I ba gyfeiriad mae'r llwybrau'n mynd o'r ffordd? Beth mae'r map yn ei ddweud am y math o dirwedd? Cadwch *Digimap for Schools* ar agor gan y bydd hwn yn eich helpu gan y byddwch yn gallu closio a llacio i archwilio nodweddion. Cofiwch ddefnyddio'r allwedd.

Stori go iawn gan *Nick Owen, Arweinydd Tîm, Tîm Achub Mynydd, Langdale/Ambleside*

*Ffoniodd y fenyw 999 a hysbysu'r heddlu, a wnaeth ein hysbysu ni wedyn (y dull safonol o gysylltu ag achub mynydd). Hysbyswyd ein tîm oddeutu 10 munud cyn yr hofrennydd, a chyrhaeddom y fenyw oddeutu 2 neu 3 munud cyn i'r hofrennydd lanio. Hysbysodd yr heddlu y Gwasanaeth Ambiwlans hefyd. Anfonwyd ambiwlans awyr o Penrith. Nid oedd y fenyw yn gallu rhoi cyfeirnod grid, ond roedd yn gallu rhoi disgrifiad da o'i lleoliad. Defnyddiom wybodaeth leol a mapiau i ddod o hyd i'r lleoliad.*